*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 1796

## Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Dros Dro a Therfynol) (Cymru) 2002

**Apeliadau gan bersonau y mae ganddynt fuddiant mewn tir sy'n cael ei gynnwys ar fap dros dro**

**6.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), ni all apêl gael ei gychwyn ond trwy anfon neu fynd â ffurflen apêl sydd wedi'i chwblhau at y Cynulliad Cenedlaethol fel ei bod yn dod i law cyn diwedd y cyfnod apêl.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) gall apêl hefyd gael ei gychwyn trwy anfon neu fynd â ffurflen apêl wedi'i chwblhau fel ei bod yn dod i law ar ôl diwedd y cyfnod apêl os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried nad oedd hi'n rhesymol ymarferol i'r apelydd gydymffurfio â gofynion paragraff (1) ar yr amod bod y ffurflen apêl wedi'i chwblhau yn dod i law o fewn pa gyfnod bynnag ar ôl diwedd y cyfnod apêl y barna'r Cynulliad Cenedlaethol ei fod yn rhesymol.

(3) Nid yw paragraph (2) yn gymwys i ffurflen apêl sy'n dod i law'r Cynulliad Cenedlaethol ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu'r Cyngor o dan reoliad 7(1) mewn perthynas â map dros dro neu darn o fap dros dro sy'n cynnwys y tir y mae'r ffurflen apêl yn ymwneud ag ef.

(4) Os bydd person sy'n dymuno cychwyn apêl yn anfon datganiad ysgrifenedig o'r dymuniad hwnnw at y Cynulliad Cenedlaethol neu yn mynd ag ef ato, fel ei fod yn dod i law cyn diwedd y cyfnod apêl, bernir bod ffurflen apêl wedi'i chwblhau wedi dod i law cyn diwedd y cyfnod apêl, os bydd y person hwnnw yn anfon neu yn mynd ag un at y Cynulliad Cenedlaethol o fewn pa gyfnod bellach bynnag y bydd y Cynulliad Cenedlaethol trwy hysbysiad ysgrifenedig yn pennu.

(5) Rhaid i ffurflen apêl wedi'i cwblhau gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

(a) Enw, cyfeiriad a chod post yr apelydd;

(b) digon o fanylion am y tir y mae'r apêl yn ymwneud ag ef i wneud hi'n bosibl i adnabod y tir hwnnw, gan gynnwys copi o'r map dros dro neu ddarn ohono gyda ffiniau'r tir hwnnw wedi'u marcio arno'n glir;

(c) y manylion hynny a fydd yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Cyngor i ddeall seiliau'r apêl, a'r rheiny'n seiliau sydd o fewn adran 6(3)(a) neu (b) o'r Ddeddf;

(ch) natur buddiant yr apelydd yn y tir y mae'r apêl yn ymwneud ag ef;

(d) a yw'r apelydd yn dymuno cael ei glywed gan berson a apwyntiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiad â'r apêl (yn hytrach na bod yr apêl yn cael ei benderfynu ar sail sylwadau ysgrifenedig) ac, os felly, a yw'n dymuno cael ei glywed mewn ymchwiliad lleol neu, fel arall, mewn gwrandawiad.

(6) Gall ffurflen apêl fod yn Gymraeg neu Saesneg ond os yw'r apelydd yn dymuno i'r apêl gael ei thrin yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy gyfrwng un o'r ddwy iaith heblaw'r un y mynegir yr hysbysiad apêl ynddi, dylai cais i'r perwyl hwnnw gael ei gynnwys yn yr hysbysiad apêl neu gael ei amgáu gyda'r hysbysiad.